Cyngor Cymuned Pentir

# Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 25ain o Orffennaf 2024 Yng nghanolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00

# Agenda

1. **Presennol: /Present**
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 13eg o Fehefin / June 2024**
5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
6. **Materion ariannol / Financial Issues**
    i. **Mantolen ariannol / Financial report**
    ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/06/2024**

**7. Cynllunio / Planning**

**C24/0532/25/LL Lleoliad / Location: Land At Pentir Substation, Pentir, Bangor, LL57 4ED**
**Bwriad / Proposal: Cyfleuster Storio Ynni Arfaethedig, mynediad cysylltiedig, tirweddu, seilwaith, offer ategol, gyda chynhwysedd mewnforio ac allforio cysylltiad grid o 57MWac.**

**C24/0511/25/DT Lleoliad / Location: Mon Awelon, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2NJ**
**Bwriad / Proposal: Estyniad unllawr arfaethedig**

C24/0529/18/CR Fferm Tŷ'n Llwyn Lôn Tŷ'n Llwyn, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4DY
Addasau adeilad allanol yn uned gwyliau

**8. Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **Ethol Is-Gadeirydd**
- **Polisiau**
- **Rhyddhau Fwybodaeth /F O I**
- **Ymgynghoriad Sustem bleidleisio / Consultation voting system**
- **Seddi gwag** — **Ward Glasinfryn x 2 a Faenol**
- **Yswiriant** — **Schedule**
- **Capel y Fynwent** — **Amcanbris 2 yn gywir**
- **Calendr 2024-25 Cyngor Pentir** — **Cyflwyno**
- **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol** — **Trwydded a'r Maes Parcio**

**9. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

| | |
|---|---|
| **Cyng D Jones Morris** | **Chwyn ar ochr ffyrdd** |
| | **Biniau sbwriel** |
| **Cyng I Ellis** | **Llwybr Llesiant** |
| | **Goleuadau nadolig** |

Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Fehefin 2024
# Yng nghanolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00

1. **Presennol: /Present**
   Cyng I Ellis cadeirydd Cyng L A James; Cyng J Pierce; Cyng J Lewis; Cyng A Joyce; Cyng C W Owen; Cyng E Roberts Cyfieithydd S E Jones Mr C Roberts a'r Clerc

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng D Jones-Morris Cyng B Jones; Cyng J Griffiths.
3. **Cyflwyniad/anerchiad – Presentation**
   Croesawodd y Cadeirydd Cefin Roberts atom i roi diweddariad byr am y diweddaraf ynglyn a chais Cynllunio perchennog Tafarn y Faenol i newid defnydd y llawr isaf i Unedau Gwyliau Ychwanegodd bod Grwp 'Pentir Action' yn ddiolchgar am y gefnogaeth 'roeddent wedi eu dderbyn yn y gorffennol a'u bod yn awyddus i ddatblygu y Dafarn yn Hwb Cymunedol os bydd posib dod i gytundeb a'r perchennog ag i ail-sefydlu cymuned o fewn y pentref er mor fychan yw'r gymuned.
   **Cyngor i anfon llythyr o gefnogaeth**
   Diolchwyd i Cefyn am ei anerchiad
4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   Cyng A Joyce a Cyng L A James yn datgan eu bod yn ymddiriedolwyr yng Nghanolfan Penrhos
5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 21ain o Fai / May 2024**
   Derbynwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng L A James gafod ei eilio gan y Cyng J Pierce Datganodd y Cyng A Joyce ei anfodlonrwydd gan nad oedd ei sylwadau ynglyn a'r ganolfan ar ol iddo ddychwelyd i'r cyfarfod yn Mis Mai wedi eu cofnodi. Esboniodd y Cadeirydd mae o ran cwrteisi oedd o wedi datgan i'r ddau oedd wedi datgan buddiant beth oedd wedi ei gytuno arno yn eiu absennoldeb ond fod y mater ar y pryd wedi cau
6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   **Seddi gwag** Mae gennym bellach ail sedd wag yn sgil ymddiswyddiad Cyng M Baines o Cyngor Cymuned Pentir Datganwyd siom ei bod wedi penderfynu ymddiswyddo a gofynwyd os oedd posib i'r Cadeirydd ymweld a hi i geisio ei chael i ail-feddwl ag os ddim i ddiolch iddi am ei gwaith ar ran y cyngor am nifer fawr o flynydddoedd
   Cytunodd y Cadeirydd i wneud hynny ag y byddai hefyd yn eu gwadd i'n cyfarfodydd fel sylwebydd yn sgil ei rol fel Aelod Lleol yr ardal
   **Yswiriant** Clerc wedi derbyn pris adnewyddu Ysw drwy Gallagers o £2816.40 fyddai rwan yn cynnwys yswiriant Canolfan Gymunedol Penrhos ond byddai y Pwyllgor Rheoli angen Yswirio Cynnwys ag Offer o fewn yr adeilad
   **Panel Hanesyddol Pentir** Y panel bellach yn ei le a'r Cyngor wedi derbyn llythyr o ddiolch gan Mr Cynrig Hughes oedd wedi cychwyn holi am gael panel
   **Bocsus Blodau Pentir** **'**Roedd peth dryswch wedi bod ynglyn a beth yn union oedd y grwp Parchu Pentir wedi bod yn chwilio amdano parthed y Bocsus sydd yn eiddo i'w grwp gan iddynt ofyn am nawdd i'w adnewyddu tra hefyd wedi gofyn i Cyngor Pentir eu mabwysiadu

**Mae'n glir bellach y bydda nhw yn derbyn nawdd ag yn eu trwsio a gofalu amdanynt eu hunain**
**Llawlyfr y Cyngor** Y Clerc ddim wedi cwblhau y llawlyfr ond yn gobeithio ei gael yn barod erbyn cyfarfod Mis Gorffennaf Cytunwyd peidio ei roi ar y wefan ail gadw dim ond i ddefnydd y cynghorwyr yn unig
**Goleuadau Dolig Cyngor** Gwynedd heb ddychwelyd hefo map yn dangos y lampau o ffin Cyngor Dinas Bangor at Capel Graig
**Cynghorwyr am gerdded a nodi rhifau y polion fyddai'n addas**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Mantolen ariannol** 'Roedd y fantolen ariannol wedi ei rhannu hefo pawb yn ei gwaith papur ag yn dangos £28,554.60 yn y cyfrif Cyfredol a £40,981.38 yn y Cyfrif Cadw
   **ii. Cofnodion cyfarfod IBC 29/05/2024** Cytunwyd i'r argymhelliad i dalu nawdd o £300 i Eisteddfod Dyffryn Ogwen a hefyd fel cyfraniad i Eglwys St Cedol tuag at gostau tacluso y Fynwent
   Cais wedi ei dderbyn oddiwrth Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Canolfan Penrhos ynglyn a'r Cyngor Cyfreithiol oedd wedi cael ei drafod yn y Cyngor Llawn yn mis Mis Mai
   **Cytunwyd i'r Cadeirydd rannu'r wybodaeth hefo'r holl gynghorwyr**

8. **Cynllunio / Planning**
C24/0435/25/LL **15, Llys y Fedwen** Ffordd Gelli Morgan Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BL AParcio gorlif newydd (9 Llecyn) fel estyniad i'r maes parcio presennol ger Llys y Fedwen **Dim, gwrthwynebiad**

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   - **Ethol Is-Gadeirydd** Gohirwyd ethol is-gadeirydd yn ein Cyfarfod Blynyddol oherwydd y nifer oedd yn bresennol. 'Doedd y nifer ddim mwy yn y cyfarfod heno. Gofynwyd os oedd enw am gael ei gynnig ai eilio
     Cynnigiodd Cyng A Joyce ei enw ei hun ond fu eilydd felly ni fu pleidlais
     **Cytunwyd gohirio eto am fis**
   - **Mabwysiadu Polisiau** Cyng L A James wedi drfftio Polisi ar gyfer ceisiadau Nawdd – bydd angen ei gyfieithu a hefyd adolygu ein polisiau cyn ei ail-fabwysiadu
   - **Rhyddhau Gwybodaeth** Wedi traelio llawer o amser yn chwilio os oes gennym y wybodaeth mae'r person yn chwilio amdano ag wedi ymateb bellach
   - **Seddi gwag** Ward Glasinfryn a Faenol Angen hysbysebu fel seddi gwag achlysurol
   - **Yswiriant** Cadarnhawyd ei Adnewyddu
   - **Capel y Fynwent** Un amcanbris wedi ei dderbyn ond yr ail Gwmni heb ymateb
     **Argymell oherwydd y swm disgwyl i gael ail-bris**
   - **Fynwent yr Eglwys** **Gwaith da wedi ei wneud** Argymell cyfrannu £300 tuag at y gost
   - **Calendr 2024-25 Cyngor Pentir** **Clerc i gwblhau**

- **Trwydded Gamlins/ Cyngor Gwynedd** Camau breision wedi gymeryd lle a petha bellach yn digwydd

**10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng B Jones** Cais i gynghorwyr Fynychu'r Gynhadledd Arfer Arloesol yn Llanelwedd ar ddydd Mercher y 3ydd o Orffennaf 2024

**Cytunwyd cefnogi y cais ac i'r Cynghorydd dderbyn tal am gostau teithio a cynhaliaeth**

**Cyng I Ellis** Diweddariad ar gael bin sbwriel wrth Cysgodfan Bryn Ogwen

**Y bin heb gyrraedd ond swyddogion Gwynedd wedi ymweld a hefyd wedi cytuno i newid y Bin baw cwn oddiar ffordd Coed y Maes a gosod bin sbwriel cyffredin yno sy'n addas i faw cwn a sbwriel arall**

Cael arwyddion rhag baw cwn yn ardal Coed y Maes Penrhos

**Clerc i holi Gwynedd ynglyn a chael cyflenwad o arwyddion gellir eu gosod o amgylch yr ardal**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.10**